GLYNN VIVIAN DYSGU-LEARNING

# Bywluniadu Gartref:

## Frances Richards a Phatrwm




Frances Richards: *Patrwm Partirdge Bryste*. 1924. Dyfrlliw.

Mae'r gwaith hwn gan Frances Richards yn ddyluniad ar gyfer crochenwaith. Yn y dyluniad hwn mae Richards yn defnyddio patrwm i wahaniaethu ardaloedd gwahanol o'r paentiad. Defnyddir patrwm yma yn yr hyn y mae Richards yn ei baentio, plu wedi'u cyfosod yn erbyn blodau, a hefyd yn y ffordd y mae hi'n paentio, strociau hirion cyflym, pyllau arafach o baent, llinellau igam-ogam a bwâu blaenfain.

Pan fyddwn yn tynnu llun mae'n hawdd anghofio nifer y ffyrdd gwahanol sydd ar gael o wneud marciau wrth i ni chwilio i leihau'r cymesureddau.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN
Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Bywluniadu Gartref Her 1:** Ewch ati i greu eich gwyddor marciau eich hun. Ceir enghraifft isod. Gallwch feddwl am bethau i'w cynrychioli, neu gallwch dynnu llun patrymau haniaethol ac yna gweld i beth maen nhw'n debyg yn eich barn chi.



**Bywluniadu Gartref Her 2:** Tynnwch olygfa neu lun bywyd llonydd lle mae'r ffocws ar y patrymau gwahanol yn y testun gan ddefnydd-io'r wyddor i'ch helpu chi.

Awgrym: Meddyliwch am sut mae cyflymder rhoi'r marciau yn eff-eithio ar y marciau ac ar eich llun

Awgrym 2: Gallwch wyrdroi'r ymarfer hwn drwy ddefnyddio'r un patrymau'n fwriadol ar gyfer deunyddiau gwahanol.

Ar ôl i chi orffen llwythwch i fyny delwedd o'ch gwaith i'w cynnwys ar @glynnvivianlearning a #glynnviviandysgu a dweud wrthym ni am i'n amdano fe.